**Teirgwaith – Pedr**

**Darllen Ioan 21:15–19**

Teirgwaith y gofynnodd i mi,
teirgwaith yr un cwestiwn treiddgar:
'Pedr, a wyt ti yn fy ngharu i?'

Ac yr oeddwn yn blino ar y cwestiwn
yn ogystal â chael fy mrifo ganddo.
Oni ddylai fod yn gwybod erbyn hyn?

Dilynais ef am dair blynedd,
a chredais ein bod yn gyfeillion agos –
dyna'r argraff a roddodd ef i mi, o leiaf.
'Y Graig', dyna'r enw a roddodd arnaf,
sylfaen ei Eglwys –
mynegiant arbennig o ymddiriedaeth –
felly sut y gallai fy amau i'n awr,
heb sôn am gwestiynu fy nghariad?

Ond yna, wrth gwrs, fe gofiais fy addewid byrbwyll:
'Er i eraill dy adael
ni wnaf i byth' –
Yn sydyn fe ddeallais.
Gwyddai y buaswn yn methu, hyd yn oed wrth i mi siarad,
nid yn unig ei adael ond ei wadu.

Gwyddai hefyd pa mor ddrwg y teimlais,
pa mor fawr oedd fy nghywilydd.
Ond ni chafwyd arlliw o ddicter ganddo,
dim cerydd,
dim dial.

Poenai fwy amdanaf fi nag amdano ef ei hun,
a'i unig fwriad oedd cael dechrau ar lechen newydd,
a dyma fy nghyfle i ddelio â'r euogrwydd.
Teirgwaith y gwadais ef,
teirgwaith y gofynnodd y cwestiwn,
ac o'r diwedd dyma ddatgan
yr hyn y dylwn fod wedi ei ddweud wrth eraill:
'Ydwyf, Arglwydd; gwyddost fy mod yn dy garu.'
Ni allem newid y gorffennol, gwyddem hynny yn iawn,
ond gyda'i gymorth ef gallem newid y dyfodol.

Dyna a gynigwyd i mi'r diwrnod hwnnw:
dechreuad newydd,

pennod newydd,
bywyd newydd.
Fe'm hadferwyd,
fe'm glanhawyd,
derbyniais faddeuant.
Yr oedd y gŵr a adewais,
yn gwrthod fy ngadael i!

**Gweddi:**
O! Dduw grasol,
er ceisio claddu'r gorffennol a dechrau o'r newydd,
daw'r hen gamgymeriadau yn ôl i'n blino.
Dysg i ni gofio o hyd,
er cymaint yw camgymeriadau'r gorffennol,
yr wyt ti yn cynnig i ni faddeuant llawn.
Aeth yr hen heibio, ac mae'r dyfodol o'n blaenau –
ac ni all dim newid hynny.
Derbyn ein diolch ac arwain ni ymlaen,
yn enw Crist ein Gwaredwr.

***Nick Fawcett, addas Olaf Davies***